# Trugaredd: gwybodaeth i fusnesau ac unigolion

CMA
Competition & Markets Authority

## Beth yw trugaredd a sut y mae'n gweithio?

Gall fod goblygiadau difrifol i fusnesau ac unigolion sydd wedi bod yn rhan o gartél yn cynnwys dirwyon, datgymhwyso cyfarwyddwyr a hyd yn oed carchar. Ond trwy hysbysu'r CMA a chydweithredu gyda'n hymchwiliad, efallai y byddwch yn gallu osgoi'r rhain.

Yn amodol ar fodloni telerau penodol, bydd y busnes cyntaf i hysbysu'r CMA ynghylch cartél nad yw eisoes yn cael ei ymchwilio yn derbyn:

- gwarant o imiwnedd rhag unrhyw ddirwyon
- sicrwydd gwarantedig rhag erlyniad troseddol ar gyfer pob un o'i gyflogeion sy'n cydweithredu (cyfredol a blaenorol)*, a
- sicrwydd gwarantedig ar gyfer ei gyfarwyddwyr sy'n cydweithredu na fyddant yn cael eu datgymhwyso rhag bod yn gyfarwyddwyr

Felly dylai ymgeiswyr gysylltu â'r CMA cyn gynted â phosibl – dim ond y cyntaf i gynnig eu hunain fydd yn cael sicrwydd o'r manteision hyn.

Mae busnes yn dal i allu ymgeisio am drugaredd hyd yn oed os nad y nhw yw'r 'cyntaf i mewn'. Yn ddibynnol ar faint o werth mae'r ymgeisydd yn ei gynnig i'r ymchwiliad, gallai elwa o leihad mewn dirwyon yn ogystal ag amddiffyniad ar gyfer rhai neu'r cyfan o'r cyflogeion sy'n cydweithredu.

*Yn yr Alban, dim ond Arglwydd Adfocad sy'n gallu gwarantu imiwnedd fel pennaeth annibynnol y gwasanaeth erlyn, ond fe roddir ystyriaeth ddifrifol i argymhelliad y CMA i beidio erlyn.

## Beth yw'r amodau ar gyfer gweithredu trugaredd?

Ym mhob achos, rhaid i'r ymgeisydd:

- fod â rheswm pendant dros amau bodolaeth y cartél a bwriad dilys i gyffesu, a
- darparu'r CMA gyda'r holl wybodaeth berthnasol ynghylch y cartél – yn cynnwys ei rôl ei hun – a chydweithredu'n llawn gydag ymchwiliad y CMA.

I elwa o imiwnedd llwyr rhag dirwyon, rhaid i'r ymgeisydd fod wedi peidio annog eraill i ymuno â'r cartél.

Gall busnesau gysylltu â'r CMA ar sail gyfrinachol, heb enwi enwau, i gael gwybod mwy am drugaredd cyn ymroi ymhellach.

Gall cymryd rhan mewn cartél gael goblygiadau difrifol. Gall trugaredd eich amddiffyn chi a'ch busnes.



## Beth yw cartél a sut mae bod yn rhan o un yn effeithio arnoch chi?

Yn syml, mar cartél yn gytundeb rhwng busnesau i beidio cystadlu gyda'i gilydd. Fel arfer mae'n gytundeb cyfrinachol ac anffurfiol.

Mae cartelau yn doriad difrifol o gyfraith cystadleuaeth. Gall unigolion sy'n aelodau o gartél gael eu carcharu am hyd at bum mlynedd. Gall busnesau wynebu dirwy o hyd at ddeg y cant o'u trosiant a chael eu datgymhwyso rhag bod yn gyfarwyddwyr cwmni.

I drafod a gofyn am drugaredd:
Ff: 020 3738 6833

Am ragor o wybodaeth ar gydymffurfio a thrugaredd:
www.gov.uk/cma

**Nid yw'r deunyddiau hyn yn cyfateb i gyngor cyfreithiol ac ni ddylid dibynnu arnynt felly.**